## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 28 Hydref, 2019

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 31 Hydref, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 7 Tachwedd, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 8 Tachwedd, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Eric Jones, G.O.Jones, R. Llewelyn Jones, Glyn Haynes, Dylan Rees, Alun Roberts

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr  R Dew a Carwyn Jones

(10:00 y. b. tan 11:20 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2019 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion – Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd, 2019 hyd at Mehefin, 2020 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Polisi Gosod Tai Cyngor (Cyswllt Lleol)**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Gosod Tai Cyffredin diwygiedig fel y'i gyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymeradwyo Polisi Gosod Tai Cyffredin diwygiedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2018/19**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2018/19 fel y'u cyflwynwyd o dan Atodiad A i'r adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymeradwyo Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2018/19.** |

| | |
|---|---|
| | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd o Awst, 2017 hyd at Mawrth, 2019 a'r casgliadau ynddo ac awdurdodi'r Prif Swyddog Cynllunio i wneud unrhyw newidiadau/diwygiadau a/neu gywiriadau golygyddol terfynol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol am Awst, 2017 i Fawrth, 2019 yn unol â gofynion deddfwriaethol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Gostwng Oed Mynediad i Ysgol Llandegfan**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori ar ostwng oedran mynediad Ysgol Llandegfan i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed yn weithredol o Fedi 2020.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mewn ymateb i gais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llandegfan** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** |

| | |
|---|---|
| | **Drafft**<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo'r llythyr ynghlwm gan gynnwys Atodiad A fel ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (2020-2040).**<br>• **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol wneud unrhyw fân newidiadau, amrywiadau neu gywiriadau a nodir ac sy'n rhesymol angenrheidiol cyn cyhoeddi'r ymateb ffurfiol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (2020-2040.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'r penderfyniad yn benderfyniad brys ac wedi'i eithrio o gael ei alw i mewn oherwydd amserlenni tynn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Cwrs Golff Llangefni**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion a gafwyd i'r prosesau ymgynghori hyd yma.**<br>• **Llwyr gefnogi a chymeradwyo argymhelliad y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i ymgymryd â'r gwaith o baratoi asesiadau effaith pellach yn gwbl unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.**<br>• **Cefnogi a chymeradwyo cyfnod pellach o ymgynghori â'r cyhoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Symud ymlaen i weithredu ynghylch Cwrs Golff Llangefni** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Diweddariad Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Cymeradwyo'r cynigion canlynol i ddefnyddio cyllid Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn –**<br><br>• **Dyrannu £55,000 i bob ysgol uwchradd er mwyn cyllido'r gost o Hyfforddwyr Dysgu ym mhob ysgol. Bydd yn fater i bob ysgol unigol benderfynu dros ba gyfnod o amser y defnyddir y cyllid.**<br>• **Bod £8,000 yn cael ei ddyrannu yn y lle cyntaf i bob ysgol uwchradd er mwyn galluogi ysgolion i ddarparu grantiau sy'n cynorthwyo myfyrwyr sy'n ddifreintiedig yn ariannol i gael lle mewn coleg/prifysgol a/neu er mwyn helpu i brynu llyfrau ac offer angenrheidiol er mwyn mynychu'r cyrsiau yn y flwyddyn gyntaf. Mater i bob ysgol unigol fydd asesu pob cais a dyfarnu grantiau yn seiliedig ar eu meini prawf aseseu.**<br>• **Y Gwasanaeth Addysg i ofyn i Goleg Cymraeg Cymru weinyddu'r ysgoloriaethau i fyfyrwyr o gefndiroedd ariannol difreintiedig fel y gallant ddilyn cyrsiau prifysgol neu goleg drwy gyfrwng y Gymraeg.**<br>• **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swddog Adran 151 benderfynu faint o gyllid sy'n cael ei ddyrannu i'r 3 cynllun yn y dyfodol. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y gwarged a wneir gan y Gronfa.**<br><br>• **Bod y gyllideb ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw yn cael ei gosod ar £50,000 ar gyfer 2020/21 a** |

| | |
|---|---|
| | **bod y swm hwn yn cael ei chwyddo bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd chwyddiant o ran y rhenti a dderbynir. Rhaid i unrhyw swm sy'n uwch na'r gyllideb hon gael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.**<br>• **Dirprwyo'r grym i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro gwblhau'r gwaith angenrheidiol er mwyn diweddaru geiriad y cynllun. Os yw'r Comisiwn Elusennau o'r farn bod y newidiadau y bwriedir eu gwneud yn newid sylweddol i weithrediad y gronfa, bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith am drafodaeth bellach ac am gadarnhad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymeradwyo cynigion i ddefnyddio cyllid y Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |